# Anturiaethau'r Sgowtiaid ar Dirwedd Hynod Eryri

Mae Sgowtio yn fudiad byd-eang gyda 28 miliwn o aelodau ledled y byd, gan gynnwys 500,000 o aelodau yn y Deyrnas Unedig. Ymhlith y ffigwr hon mae 100,000 o oedolion sy'n gwirfoddoli fel arweinwyr, gweinyddwyr a chefnogwyr. Byd bywiog Sgowtio yn y Deyrnas Unedig, sy'n llawn antur, arweinyddiaeth a ffrindiau gydol oes. Bu Sgowtio yn rhan annatod o ddiwylliant ieuenctid Prydain am dros ganrif, gan lywio cenedlaethau o unigolion ifanc i dyfu'n oedolion cyfrifol, hyderus ac sy'n ystyriol o'r gymuned.

Yn y DU, mae Sgowtio yn cynnig cyfuniad unigryw o hen draddodiadau a rhaglenni sy'n torri tir newydd gan gynnig cyfleoedd i bobl ifanc fforio'r awyr agored, datblygu sgiliau bywyd hanfodol a dod yn ddinasyddion gweithgar. P'un a ydych chi'n rhiant sy'n awyddus i weld eich plentyn yn datblygu ac yn ffynnu, neu'n unigolyn ifanc ag awch am gyffro, addysg a chyfeillgarwch, gallai Sgowtio yn y DU gynnig profiad heb ei ail ichi.

Yma yn Sgowtiaid 1af Gwydyr, rydym wedi ymgartrefu yn Neuadd Eglwys y Santes Fair ym Metws-y-coed. Mae ein tîm ymroddgar o wirfoddolwyr yn cynnal ein gwaith, gan gynnig arweiniad a chymorth i dros 60 o blant a phobl ifanc.

## Ein gwaith yng Ngwydyr 1af

Ni ydy'r unig Grŵp Sgowtiaid yn nyfnderoedd Eryri. Mae'n lleoliad gwerth chweil i'n grŵp Sgowtiaid yn sgil ei amgylchedd naturiol syfrdanol, y cyfleoedd helaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ei arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol cyfoethog, a'r cyfle ar gyfer twf personol a datblygu sgiliau. Mae'n le lle gallai pobl ifanc ymwneud â natur, eu cyfoedion a'u cymuned gan greu atgofion bythgofiadwy.

Rydym yn trefnu teithiau rheolaidd i'r mynyddoedd. Y penwythnos diwethaf aeth ein Hafancod (6-8 oed) ar daith i Grimpiau gan fwynhau golygfeydd godidog o Dryfan a'r Wyddfa a'i chriw. Mae gennym ni wersyllfa ardal yn Rowen lle'r ydym yn cynnal gwersylloedd grŵp sy'n gyfle i'r bobl ifanc fwynhau tanllwyth o dân gyda'r nos. Buom yn canŵio ac yn hwylio ar Lyn Geirionnydd, yn dringo craig ger y Bont Rufeinig, ac yn crwydro o dan y ddaear yn y mwynglawdd llechi yng Nghwmorthin.

Mae gennym ni bump adran yng Ngwydyr 1af ar hyn o bryd:

**GWIWEROD** - 4 i 6 oed. Rydym yn cwrdd ar brynhawn ddydd Mercher o 4.30yp tan 5.30yp. Arweinwyr: Kate Reeves, Zac Tatam.

**AFANCOD** - 6 i 8 oed. Rydym yn cwrdd ar nos Lun o 5.30yp tan 6.30yh. Arweinwyr: Marianne Siddorn.

**CYBIAU** - 8 i 10 1/2 oed. Rydym yn cwrdd ar nos Fawrth o 5.15yp tan 6.45yh. Arweinwyr: Alison Richmond, Paul Edlington.

**SGOWTIAID** - 10 1/2 i 14 oed. Rydym yn cwrdd ar nos Fawrth o 7yh tan 9yh. Arweinwyr: Ian Henderson, Shelley Rogers.

**FFORWYR** - 14 i 18 oed. Rydym yn cwrdd ar nos Fercher o 7yh tan 9yh. Arweinwyr: Amanda Burnham, Daniel Brown.